

## CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Mai 9, 2017 yn y Pafiliwn, Marian Mawr, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

### PRESENNOL:

Y Cyng: Dyfrig Siencyn (Maer)  
Y Cyng: Delwyn Evans (Dirprwy Faer)  
Y Cyng.: Jo Checkley, Ray Stubbs  
Linda Morgan, Bob Gunton, John Raghoobar,  
Ywain Myfyr, Sion Edwards, Marian Harrison, Heilyn Williams  
Mr Rhys Williams (Clerc)  
**Hefyd yn Bresennol:** 1 x aelod o'r wasg

### 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuruadau  
Cyflwynwyd llongyfarchiadau i'r 2 x aelod newydd o'r Cyngor (Sion Edwards / Marian Harrison) a diolchwyd i'r cyn gynghorwyr am ei gwaith (John Cadwaladr / Amanda Morgans / Amjad Ali)

Nodwyd y bod 2 x sedd wag yn bodoli yn ward y De ac y byddant yn cael eu llenwi drwy broses cyfethol yn y dyfodol agos.

### 2. I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWDYD AR MAI 10, 2016

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod

### 3. I DDERBYN ADRODDIAD ODDIWRTH Y MAER AR WAITH Y FLWYDDYN

Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr oddiwrth y Maer ar waith y Cyngor ac ar ddyletswyddau fel Maer yn ystod ei flwyddyn prysur.

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth a chydweithrediad drwy'r flwyddyn ac i'r Dirprwy Faer, a'r Clerc am ei waith yn ystod y flwyddyn.

Diolchwyd i'r Maer am ei waith drwy'r flwyddyn.

### 4.a I DDERBYN A CHADARNHAU MANTOLEN ARIANNOL Y CYNGOR AM 2016/2017 YN OL GOFYNION RHEOLAU CYFRIF AC ARCHWILIAD 1996 GAN GYNNWYS ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD RHEOLAU MEWNOL Y CYNGOR

Derbyniwyd a chadarnhawyd y fantolen ariannol uchod a diolchwyd i'r Clerc am ei waith. Yn ogystal, adolygwyd effeithiolrwydd rheolau mewnol y Cyngor.

#### **Penderfynwyd hefyd:**

1) I beidio drosglwyddo unrhyw arian i Gronfa'r Maer am y flwyddyn ariannol 2017 / 2018 oherwydd sefyllfa iach y gronfa ar hyn o bryd. Hyn l'w adolygu yn ystod y flwyddyn

2) Cadarnhau'r egwyddor o gefnogi Ymddiriedolaeth y Llyfrgell Rhydd sydd bellach gyda chyfrif banc sy'n hollol annibynol o'r Cyngor drwy trosglwyddiad ariannol i'r cyfrif annibynol yma yn ystod y flwyddyn I ddod

3) Awdurdodi taliad o £127.80 I gwmni Pendragon Wales ar gyfer arnhegion Gefeillio

4.b

#### **I FABWYSIADU / AIL GADARNHAU CÓD YMDDYGIAD Y CYNGOR**

Ail Fabwysiadwyd y Cód ymddygiad I Gynhorwyr Llywodraeth Cymru (Rhif 788) ar gyfer y Flwyddyn Ariannol Presennol

5.

#### **I ETHOL MAER A DIRPRWY FAER AM Y FLWYDDYN 2017/2018**

Etholwyd y Cyng. Delwyn Evans yn Faer

Etholwyd y Cyng Ywain Myfyr yn Ddirprwy Faer

Diolchodd y Cyng Delwyn Evans am y fraint o fod yn Faer unwaith eto drwy nodi y cyfnod anodd sydd i ddod, megis torriadau parhaol mewn cyllid Llywodraeth Leol.

6.

#### **I ETHOL CYNRYCHIOLWYR AR IS-BWYLLGORAU'R CYNGOR AC AR FUDIADAU ALLANOL**

Is Bwyllgor Cyllid	Maer, Dirprwy Faer, Jo Checkley,,Linda Morgan,John Raghoobar Heilyn Williams
Is Bwyllgor Cynllunio	Maer, John Raghoobar, Bob Gunton, Jo Checkley, Marian Harrison, Heilyn Williams
Pwyllgor Gefeillio Dolgellau	Maer, Dirprwy, Faer, Linda Morgan, Jo Checkley, Sion Edwards.
CAB Meirionnydd	Cytunwyd i'w ddileu
Grwp Siarad Busnes Dolgellau	Jo Checkley, Ywain Myfyr
Un Llais Cymru ( Pwyllgor Meirionnydd )	Heilyn Williams, Jo Checkley
Ysgolion Babanod a Iau Dolgellau	Bob Gunton
Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams	Tecwyn Owen
Partneriaeth Dolgellau	Maer pob Blwyddyn, Jo Checkley, Branwen Rhys Dafydd
Gweithgor y Llyfrgell Rhydd	Maer. Dirprwy Faer, Linda Morgan, Marian Harrison, Bob Gunton, Jo Checkley, Branwen Rhys Dafydd
Parc Sglefrolio Dolgellau Gwyro Wythnosol / Casglu Sbwriel	Linda Morgan, Delwyn Evans
Grwp Mynediad Meirionnydd	Delwyn Evans, Ray Stubbs
Papur Siarad Dolgellau	Maer.

Grwp Blodau a Blychau	Linda Morgan, Marian Harrison
Pwyllgor Ymgynhorol Rheilffordd y Cambrian	Delwyn Evans
Gweithgor Goleuadau Nadolig	Maer, Jo Checkley, Delwyn Evans, Ray Stubbs, Bob Gunton. Ywain Myfyr, Jo Checkley, Heilyn Williams, ynghyd a cynrychiolwyr allanol – yr hawl i'r Is – Bwyllgor eu penodi

Yr Hawl i Ddirprwyo i fod mewn grym, lle'n briodol, ar gyfer yr uchod.